*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn (y Strategaeth) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Cafodd y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn ei chyflwyno ddiwethaf i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2021, ac yn unol ag arferion da, mae wedi bod yn destun adolygiad.

3. Mae'r Strategaeth wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol.

**ARGYMHELLIAD**

4. Bod yr Aelodau'n argymell y canlynol i'r Awdurdod:

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod.**

**CEFNDIR**

5. Mae'r Awdurdod yn wahanol i awdurdodau lleol eraill oherwydd mae'n cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, felly nid yw'n awdurdod sy'n codi praesept nac yn bilio.

6. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu 'Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009' er mwyn cydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai'r Awdurdod yn gofyn am gyfraniad ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn wedi darparu sail statudol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru allu dal cronfeydd wrth gefn.

7. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod, ac mae wedi sicrhau bod modd lleihau'r angen i ddiwygio'r cyfraniadau mewn unrhyw flwyddyn (h.y. osgoi ardoll atodol ar Gynghorau cyfansoddol).

**GWYBODAETH**

8. Mae'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n nodi manylion y cronfeydd sy'n cael eu dal ac mae'n dogfennu'r broses ar gyfer adolygu'r cronfeydd ac adrodd yn eu cylch.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Drwy ddal cronfeydd wrth gefn, gall yr Awdurdod gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pryd a ble y mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy presennol yw £7.821m (31 Mawrth 2023) |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. Gallai hyn gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau sy'n hysbys. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/<br>Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys symudiadau yn y cronfeydd. |